


Ymateb i *lifogydd*



Cyflwyniad

Mae'r llyfryn hwn yn esbonio sut y bydd eich cwmni yswiriant yn eich cefnogi mewn argyfwng pan fydd llifogydd wedi effeithio ar eich cartref. Os yw'r broses neu'r amserlen ar gyfer adfer eich cartref yn wahanol iawn i'r hyn a ddisgrifir yma, bydd eich yswiriwr neu'ch unionwr colledion yn gallu egluro pam. Bydd eich yswiriwr yn gwneud popeth o fewn ei allu ar ôl llifogydd i'ch helpu cyn gynted â phosibl, yn dibynnu ar faint y llifogydd ac a oes modd cyrraedd yr ardaloedd yr effeithiwyd arnynt.



Amdanom ni

*The***ABI**

Yr ABI yw llais awdurdodol diwydiant yswiriant a chynilion hirdymor y DU. Mae'n ddiwydiant y mae'r DU yn arwain ynddo ar lefel fyd-eang; yma y mae'r sector mwyaf yn Ewrop a'r trydydd mwyaf yn y byd.

Rydyn ni'n cynrychioli dros 300 o gwmnïau yn ein haelodaeth, gan gynnwys y rhan fwyaf o'r enwau cyfarwydd a darparwyr arbenigol, gan roi tawelwch meddwl i gwsmeriaid.

Mae'n sector cynhyrchol, cynhwysol a hanfodol i economi'r DU, a gyda'n gilydd rydyn ni'n sbarduno newid er mwyn diogelu ac adeiladu cymdeithas sy'n ffynnu.

Camau brys

Beth ddylech chi ei wneud?

Os ydych chi'n meddwl y gallai llifogydd effeithio ar eich cartref, ystyriwch eich diogelwch personol yn gyntaf ac a oes angen gadael eich cartref ar unwaith.

Os ydych chi'n byw mewn ardal sydd mewn perygl o lifogydd, gallwch gofrestru i gael rhybuddion a'r wybodaeth ddiweddaraf gan y Swyddfa Dywydd, Asiantaeth yr Amgylchedd ar lefel genedlaethol neu ddatganoledig, neu eich awdurdod lleol. Gallwch gael yr wybodaeth ddiweddaraf drwy wrando ar eich gorsaf radio leol, y teledu neu drwy ffonio'r gwasanaeth Floodline ar 0345 988 1188 i gael gwybodaeth gan Asiantaeth yr Amgylchedd, Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban a Chyfoeth Naturiol Cymru.

Os ydych chi'n byw yng Ngogledd Iwerddon, gallwch ffonio 0300 2000 100. Peidiwch â gwneud unrhyw beth a allai beryglu eich iechyd a'ch diogelwch, a dilynwch unrhyw gyngor swyddogol i adael eich cartref cyn gynted â phosibl. Ffoniwch 999 os ydych chi'n teimlo eich bod mewn perygl yn sgil dŵr sy'n codi ar unrhyw adeg.





Sut i leihau effaith bosibl llifogydd

Dyma rai camau y gallwch eu cymryd i leihau effaith bosibl y llifogydd, os oes amser ac os yw'n ddiogel gwneud hynny.

- 1 Casglwch becyn llifogydd sy'n cynnwys eich ffôn symudol a'ch gwefrwyr, rhifau ffôn cyswllt, unrhyw feddyginiaeth sy'n cael ei chymryd ar hyn o bryd, tortsh, batri, radio, manylion y polisi yswiriant, menig rwber, weips gwlyb, hylif glanhau dwylo, pecyn cymorth cyntaf a dŵr potel.
- 2 Gwnewch yn siŵr bod anifeiliaid anwes yn cael gofal a'u bod yn ddiogel rhag y llifogydd.
- 3 Symudwch eitemau sydd â gwerth ariannol neu bersonol ac eitemau hanfodol i fyny'r grisiau neu i le uchel, ac ystyriwch symud eich car i ardal sy'n llai tebygol o ddioddef llifogydd.
- 4 Rhowch unrhyw fesurau gwrthsefyll llifogydd ar lefel yr eiddo yn eu lle os oes modd, fel gataiau llifogydd neu orchuddion brics aer.

Os ydych yn gadael eich cartref ac os oes amser:

- Ystyriwch fynd ag unrhyw beth gwerthfawr gyda chi.
- Clowch eich drysau a'ch ffenestri os oes modd.
- Rhowch wybod i'ch teulu a'ch cymdogion am eich cynlluniau a sut i gysylltu â chi
- Ewch â manylion cyswllt mewn argyfwng gyda chi, gan gynnwys rhifau ffôn symudol, cyfeiriadau e-bost a dogfennau polisiâu yswiriant, gan gynnwys rhifau'r polisiâu, os oes modd – gall eich yswiriwr ddefnyddio'r wybodaeth hon i gadw mewn cysylltiad â chi.

Peidiwch â dychwelyd i'ch cartref ar ôl llifogydd nes ei bod yn ddiogel ichi wneud hynny.

Y broses hawlio ar ôl llifogydd

*Mae chwe phrif gam i'w dilyn
os bydd llifogydd yn
eich cartref →*

Cam 1

Yn syth ar ôl y llifogydd

Cysylltwch â'ch yswiriwr cyn gynted â phosibl os yw eich cartref neu eich eiddo wedi'i ddifrodi. Bydd yn rhoi cyngor ichi ar sut i drefnu llety arall (os oes angen). Bydd eich yswiriwr yn gofyn am wybodaeth y bydd ei hangen arno i gefnogi eich hawliad, a bydd yn egluro sut i fwrw ymlaen â'r broses gychwynnol o lanhau a thrwsio. Mae gan y rhan fwyaf o yswirwyr linell gymorth 24 awr.

Os oes gennych bolisiau yswiriant ar wahân ar gyfer yr adeilad a'r cynnwys, cysylltwch â'r ddau gwmni. Os ydych yn rhentu eich cartref, cysylltwch â pherchennog yr eiddo gan mai nhw sy'n debygol o fod yn gyfrifol am drwsio unrhyw ddifrod i'r adeilad, a chysylltwch â'ch yswiriwr cynnwys os oes difrod i'ch eiddo.

Mae'n debyg y bydd eich yswiriwr yn gofyn am wybodaeth i benderfynu a oes angen rhoi blaenoriaeth i chi, er enghraifft os ydych chi'n sâl, yn anabl, yn oedrannus, os oes gennych blant ifanc, neu os oes angen cymorth ychwanegol arnoch. Os oes difrod sylweddol i'ch cartref neu eich eiddo, mae'n bosibl y bydd eich yswiriwr yn trefnu i unionwr colledion gysylltu â chi i asesu'r difrod yn fanylach ac i oruchwylio'r gwaith adfer.

Os yw'r difrod yn gymharol fach, mae'n bosibl y bydd eich yswiriwr yn gallu delio â'ch hawliad heb orfod cael asesiad manwl. Siaradwch â'ch yswiriwr am gael gwared ar unrhyw eitemau a allai beri risg i iechyd (fel bwyd wedi pydru). Bydd cael cymaint o fanylion â phosibl am eitemau sydd wedi cael eu difetha, a chofnodi hyn, yn helpu'r broses hawliadau yswiriant. Dyw yswirwyr ddim yn disgwyl i gwsmeriaid gadw pentyrrau o eiddo sydd wedi'i ddifrodi.

Bydd proses hawliadau eich yswiriwr wedi'i chynllunio i roi'r holl gymorth sydd ei angen arnoch. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd **aseswr colledion**, sy'n annibynnol ar eich yswiriwr, yn cysylltu â chi ac yn cynnig helpu i wneud hawliad ar eich rhan. Cofiwch fod gwahaniaeth rhwng yr aseswr colledion a'r unionwr colledion (loss adjuster).



Os ydych chi'n ystyried cyflogi aseswr colledion, gofynnwch am wybodaeth am eu holl gostau gan mai chi fydd yn gyfrifol am y rhain. Does dim modd adfer y costau hyn gan eich yswiriwr. Mae'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol yn rheoleiddio aseswyr colledion, a dim ond aseswr sydd wedi'i awdurdodi ganddyn nhw y dylech ei gyflogi.

Wrth ddefnyddio aseswr colledion neu gwmni rheoli hawliadau, holwch a fyddant yn gwarantu ansawdd yr atgyweiriadau, neu'n cywiro unrhyw waith diffygiol. Bydd yswirwyr yn gwarantu unrhyw waith sy'n cael ei wneud gan eu hunionwyr colledion neu eu contractwyr cymeradwy.

I gael rhagor o wybodaeth am rôl aseswyr colledion a chwmnïau rheoli hawliadau, ewch i'n gwefan: abi.org.uk



Cam 2

Asesu'r difrod a dod o hyd i lety arall

Ar ôl i chi gysylltu â'ch yswiriwr, bydd unionwr colledion (arbenigwr asesu difrod) yn cael ei benodi, a bydd yn trefnu llety arall ichi. Yr unionwr colledion fydd y rheolwr prosiect ar gyfer y gwaith adfer ar eich cartref hefyd. Wedi i asesiad cychwynnol o'r difrod gael ei wneud, bydd y broses o drwsio'n cael ei hegluro.

Yn dibynnu ar faint y difrod, bydd eich unionwr colledion naill ai'n ymweld â chi neu'n cysylltu â chi dros y ffôn. Os oes difrod sylweddol i'ch cartref, mae'n bosibl y bydd eich unionwr colledion yn penodi syrfêwr i roi arbenigedd ychwanegol, ac mae'n bosibl y bydd hefyd yn cynnig arolwg gwrthsefyll llifogydd arbenigol i benderfynu sut i sicrhau y bydd eich cartref yn gallu gwrthsefyll llifogydd yn well yn y dyfodol.

Wedi i'ch unionwr colledion gwblhau ei asesiad cychwynnol, dylai allu rhoi amserlen fras i chi yn amlinellu'r hyn y mae angen ei wneud i adfer eich cartref, pwy fydd yn gwneud y gwaith a pha mor hir y bydd yn ei gymryd.

Os oes angen i chi adael eich cartref yn ystod y broses adfer, mae'r rhan fwyaf o bolisiâu yswiriant adeiladau a chynnwys yn cynnig hyd at 20% o gyfanswm y gwerth sydd wedi'i yswirio i dalu am eich anghenion o ran llety arall a'r costau ychwanegol cysylltiedig, fel costau gwresogi ychwanegol. Os oes gennych yswiriant digonol (yswiriant adeiladau sy'n cwmpasu'r holl gostau ailadeiladu ac yswiriant cynnwys sy'n adlewyrchu gwerth eich eiddo), bydd hyn fel arfer yn ddigon i dalu am yr holl gyfnod pan fyddwch yn aros mewn llety arall. Os mai dim ond yswiriant cynnwys sydd gennych, bydd eich yswiriant wedi'i gyfyngu i'r swm sydd wedi'i yswirio dan eich polisi cynnwys.



Siaradwch â'ch landlord neu reolwr yr adeilad am unrhyw yswiriant sydd ganddynt i ddarparu ar gyfer eich anghenion llety, neu'r camau y maent yn eu cymryd i'ch ailgartrefu os ydych yn rhentu'r eiddo. Gallwch ddewis aros yn eich cartref yn ystod y broses o drwsio, ond cofiwch ystyried yr amgylchedd y byddwch yn byw ynddo, a'r tarfu posibl, a thrafodwch hyn gyda'ch yswiriwr neu'ch unionwr colledion.

Fel arfer, bydd eich unionwr colledion yn cysylltu â chi o fewn 24 awr i chi roi gwybod i'ch yswiriwr ac yn cynnal unrhyw ymweliadau angenrheidiol cyn gynted ag y bo modd. Fodd bynnag, ar ôl llifogydd mawr, gall hyn gymryd ychydig mwy o amser oherwydd nifer yr hawliadau ac anawsterau o ran gallu cyrraedd yr ardaloedd y mae'r llifogydd wedi effeithio arnynt. Serch hynny, gallwch ddisgwyl clywed gan eich unionwr colledion ar ôl i chi gysylltu â'ch yswiriwr. Os oes angen iddo ymweld, dylai wneud hynny o fewn saith niwrnod pan fydd modd cyrraedd yr ardal.

Dylech gadw unrhyw garpedi, dodrefn neu nwyddau eraill sydd wedi cael eu symud o'ch cartref nes bydd eich unionwr colledion wedi cytuno y gellir cael gwared arnynt. Fodd bynnag, os yw'n mynd i gymryd sawl diwrnod i'ch unionwr colledion ymweld, mae'n bosibl y bydd angen i chi gael gwared ar rai pethau. Os ydych am wneud hyn, gofynnwch am ganiatâd eich unionwr colledion yn gyntaf, a dilynwch ei gyngor. Os nad yw hynny'n bosibl, rhowch dystiolaeth i'ch unionwr colledion o'r hyn rydych chi wedi cael gwared arno. Tynnwch sawl ffotograff o bopeth rydych chi'n cael gwared arno, a nodwch fanylion fel gwneuthuriad a rhif cyfresol y nwyddau. Os oes angen i chi gael gwared ar garpedi sydd wedi'u difrodi gan lifogydd, torrwrch ddarn bach ohonynt a'i gadw fel sampl. Bydd hyn yn cyflymu'r broses o setlo eich hawliad.

Cam 3

Glanhau a gwagio

Bydd eich unionwr colledion yn trefnu i lanhau a gwagio eich cartref. Dylai'r gwaith hwn ddechrau o fewn pedair wythnos i'w drafod gyda'ch unionwr colledion. Os oes angen, mae'n bosibl y bydd yn cyflogi cwmni glanhau arbenigol i wneud hyn. Mae'r cwmnïau hynny'n aml yn cael eu galw'n gwmnïau adfer ar ôl trychineb.

Y cam cyntaf tuag at adfer eich cartref yw cael gwared ar y silt a'r malurion eraill a adawyd gan y llifogydd, glanhau'r ardaloedd yr effeithiwyd arnynt, ac archwilio'r cyflenwadau a'r offer nwy a thrydan. Yna bydd eich cartref yn cael ei wagio lle bo angen - mae hyn yn debygol o gynnwys cael gwared ar ddodrefn, ffitiadau, plastr a gwaith coed sydd wedi'u difrodi ac sy'n wlyb. Bydd faint o waith gwagio sydd ei angen yn amrywio ar gyfer pob eiddo a bydd yn dibynnu ar ffactorau fel lefel y difrod, dyfnder y dŵr, yr adeiladwaith a'r broses sychu. Os oedd mesurau gwrthsefyll llifogydd eisoes wedi'u gosod yn yr eiddo e.e. lloriau neu blastr sy'n gwrthsefyll dŵr, mae'n bosibl y bydd angen llai o waith gwagio.

Mae'n bosibl na fydd maint llawn y difrod a achoswyd gan y llifogydd yn amlwg ar yr wyneb, ac felly mae'n bosibl y bydd angen mwy o waith gwagio na'r disgwyl. Os oes gennych unrhyw eitemau gwerthfawr neu bersonol (fel albymau lluniau) sy'n dal i fod yn eich cartref, trafodwch sut i'w glanhau a'u symud o'ch cartref gyda'ch yswiriwr, eich unionwr colledion neu'ch cwmni adfer ar ôl trychineb.



Yn dibynnu ar faint y llifogydd, dylech ddisgwyl i'r gwaith hwn ddechrau o fewn pedair wythnos i chi ddweud wrth eich yswiriwr am eich hawliad neu ei drafod gyda'ch unionwr colledion. Os yw'n debygol o gymryd mwy o amser, bydd eich unionwr colledion yn trafod hyn gyda chi.

Can 4

Diheintio a *sychu eich cartref*

Bydd eich yswiriwr neu'ch unionwr colledion yn penodi cwmni sychu i ddiheintio a sychu'ch cartref. Gall hyn gymryd rhwng ychydig wythnosau a nifer o fisoedd. Bydd eich unionwr colledion yn rhoi amserlen i chi ac yn cadw mewn cysylltiad â chi i roi'r wybodaeth ddiweddaraf.



Ar ôl glanhau a gwagio eich cartref, y cam nesaf yw sychu a diheintio'r ardaloedd yr effeithiwyd arnynt. Gall dŵr llifogydd dreiddio'n ddwfn i adeiladwaith eich cartref, hyd yn oed os oedd y llifogydd yn ymddangos yn fach ac yn fas. Gall y lleithder dwfn hwn gymryd amser hir (rhwng ychydig wythnosau a nifer o fisoedd neu fwy) i gilio drwy waliau a lloriau, hyd yn oed os yw'r arwyneb yn ymddangos yn sych. Rhaid cwblhau'r broses ddiheintio a sychu cyn i'r gwaith trwsio ddechrau oherwydd gallai hyn arwain at broblemau tamprwydd difrifol yn y dyfodol.

Mae'n bwysig nad ydych yn diffodd unrhyw beiriannau sychu sydd wedi'u gosod yn eich cartref oni bai bod eich yswiriwr neu'ch unionwr colledion yn gofyn i chi wneud hynny, oherwydd gallai hyn achosi oedi yn y cyfnod sychu. Bydd eich yswiriant yn cwmpasu unrhyw gostau trydan ychwanegol a achosir gan y peiriannau sychu.



Cam 5

Trwsio ac ailadeiladu

Dylai'r gwaith trwsio, gan gynnwys unrhyw waith ychwanegol i sicrhau bod eich cartref yn gallu gwrthsefyll llifogydd yn well yn y dyfodol, ddechrau'n fuan ar ôl i chi gael eich tystysgrif sychu gan y cwmni sychu. Bydd eich unionwr colledion yn penodi adeiladwr i wneud y gwaith trwsio ac ailadeiladu a bydd yn cadw mewn cysylltiad â chi i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr amserlenni disgwylidig.

Dim ond adeiladwyr sy'n bodloni eu meini prawf ac sy'n gymwys i wneud y gwaith y bydd yswirwyr ac unionwyr colledion yn eu cyflogi. Eich yswiriwr sy'n gyfrifol am waith yr adeiladwyr y maent yn eu penodi.

Pan fydd eich cartref yn sych, gall gwaith ddechrau i adfer a thrwsio'ch cartref gan gynnwys, er enghraifft, ailblastro a gosod cegin newydd os oes angen.

Bydd eich yswiriwr neu'ch unionwr colledion hefyd yn trafod gyda chi a hoffech gynllunio'r atgyweiriadau i'ch cartref i sicrhau ei fod yn gallu gwrthsefyll llifogydd yn well yn y dyfodol. Gallai hyn gynnwys socedi trydanol uwch, lloriau teils, gorchuddion brics aer, a phlastr a cheginau sy'n gallu gwrthsefyll llifogydd.

Os nad yw hyn yn costio mwy na chost atgyweirio eich cartref i'w gyflwr cyn y llifogydd, fydd eich yswiriwr ddim yn codi tâl arnoch am y newidiadau hyn. Os yw hyn yn costio mwy na chost atgyweirio eich cartref i'w gyflwr cyn y llifogydd, chi fydd yn gyfrifol am dalu'r gost ychwanegol.

Mae llawer o nodweddion gwrthsefyll llifogydd yn costio'r un fath ag atgyweiriadau arferol. Gofynnwch i'ch yswiriwr a yw wedi cofrestru ar gyfer y cynllun Ailgodi'n Gryfach (BBB) sy'n rhoi mesurau ar waith i sicrhau bod eich cartref yn gallu gwrthsefyll llifogydd yn well yn y dyfodol.

Bydd y rhan fwyaf o bolisiau cynnwys yn cwmpasu cost lawn prynu eitemau newydd cyfatebol yn lle'r rhai sydd wedi'u difrodi. Os yw gwerth eich cynnwys yn fwy na'r swm y mae gennych yswiriant ar ei gyfer, mae'n bosibl y bydd swm setlo eich hawliad yn cael ei leihau i adlewyrchu hyn.

Dylai'r gwaith trwsio ac ailadeiladu ddechrau yn fuan ar ôl i'ch cartref gael tystysgrif yn cadarnhau ei fod wedi sychu'n llwyr.



Cynllun Ailgodi'n Gryfach (BBB) Flood Re

Lansiodd Flood Re y cynllun Ailgodi'n Gryfach ym mis Ebrill 2022. Mae'n caniatáu i yswirwyr cartrefi gynnig mesurau gwrthsefyll llifogydd ar lefel eiddo i gwsmeriaid. Mae'r gwaith hwn yn ychwanegol at yr hyn sydd ei angen i drwsio difrod a achoswyd gan lifogydd. Gall y cyllid o hyd at £10,000 dalu am osod mesurau gwrthsefyll llifogydd a fydd yn lleihau effaith llifogydd yn y dyfodol. Gallai hyn gynnwys, ymhlith pethau eraill, codi socedi trydanol a nwyddau gwyn i ffwrdd oddi wrth y llawr a gosod brics aer sy'n cau eu hunain a drysau sy'n gwrthsefyll llifogydd. Gall y costau sy'n cael eu had-dalu hefyd gynnwys cynnal arolygon i ddeall y risg o lifogydd a'r mesurau lliniaru posibl. Mae'n bwysig holi a yw eich yswiriwr wedi cofrestru ar gyfer y cynllun Ailgodi'n Gryfach.

Gallwch weld rhestr o'r yswirwyr sy'n rhan o'r cynllun ar: floodre.co.uk/buildbackbetter

Cam 5 *Parhad*

Cynnig setliad ariannol: arferion gorau yswirwyr

Mae'n bosibl y byddai'n well gennych dderbyn setliad ariannol a fydd yn golygu mai chi sy'n gyfrifol am reoli'r broses drwsio eich hun. Bydd eich yswiriwr yn gweithio gyda chi i sicrhau bod swm y setliad ariannol yn cwmpasu'r holl waith sydd ei angen i adfer yr eiddo, a bydd yn egluro'r prif bethau y dylech eu hystyried, fel faint o waith trwsio sydd ei angen a phwysigrwydd defnyddio cyflenwyr sydd â chymwysterau addas.

Os byddwch yn derbyn setliad ariannol, chi fydd yn gyfrifol am ansawdd y gwaith trwsio a wneir gan y cyflenwyr a ddewiswch, a fydd yr yswiriwr ddim yn gyfrifol os yw'r gwaith hwn yn ddiffygiol neu os oes angen ei ail-wneud. Os canfyddir difrod ychwanegol annisgwyl yn ystod y broses drwsio, bydd eich yswiriwr yn esbonio sut gallwch ailgysylltu ag ef.

Fel diwydiant, mae yswirwyr wedi ymrwymo i gefnogi cwsmeriaid y mae llifogydd wedi effeithio arnynt, yn enwedig y rhai sy'n agored i niwed. Os byddai'n well gennych dderbyn setliad ariannol, bydd eich yswiriwr yn ceisio sicrhau eich bod yn deall yn llwyr beth mae hyn yn ei olygu i chi. Mae yswirwyr sy'n aelodau o ABI wedi cytuno i gadw at y set ganlynol o egwyddorion arfer gorau wrth gynnig setliadau ariannol i gwsmeriaid ar ôl llifogydd:

1.

Bydd yswirwyr yn trafod gyda'u cwsmer beth yw'r ffordd orau o gyfathrebu â nhw.

2.

Bydd yswirwyr yn sicrhau bod swm y setliad ariannol a gynigir yn foddhaol ar sail yr amcangyfrif o'r costau i adfer yr eiddo.

3.

Bydd yswirwyr yn rhoi gwybod yn glir i gwsmeriaid beth yw goblygiadau posibl derbyn setliad ariannol.

4.

Bydd yswirwyr yn gwneud yr archwiliadau angenrheidiol i asesu gallu cwsmer i reoli'r broses ailsefydlu.

5.

Bydd yswirwyr yn cyfleu eu rôl yn glir ar ôl i'r setliad ariannol gael ei dalu i'r cwsmer.

Cam 6

Symud yn ôl *i'ch cartref*

Bydd eich yswiriwr neu'ch unionwr colledion yn trafod gyda chi pryd y cewch ddychwelyd adref. Yn dibynnu ar ba mor ddifrifol yw'r difrod i'ch cartref, gall hyn fod rhwng ychydig wythnosau a blwyddyn neu fwy ar ôl y llifogydd. Mae'n bosibl y byddwch yn gallu symud yn ôl i'ch cartref tra bydd rhywfaint o'r gwaith trwsio'n dal i fynd rhagddo.

Lle bu'n rhaid ailblastro, mae'n eithaf arferol i bobl symud i mewn cyn i'r gwaith ailaddurno gael ei gwblhau. Bydd eich hawliad yn cael ei setlo pan fydd yr holl waith wedi'i gwblhau a'r taliadau sy'n ddyledus wedi'u gwneud. Dylech wneud yn siŵr eich bod yn deall sut mae unrhyw fesurau gwrthsefyll llifogydd yn gweithio ar gyfer unrhyw lifogydd yn y dyfodol e.e. gatau llifogydd, gorchuddion brics aer, ac ati.

Bydd eich yswiriwr a'ch unionwr colledion yn eich galluogi i symud yn ôl i'ch cartref cyn gynted â phosibl gan ystyried y gwaith sy'n angenrheidiol i lanhau, sychu, trwsio ac ailaddurno eich cartref. Mae'n bwysig peidio â brysio rhannau hanfodol o'r broses gan y gallai hyn arwain at broblemau gyda'ch cartref yn y dyfodol.



Beth os bydd pethau'n mynd o chwith?

Bydd eich yswiriwr yn gwneud popeth o fewn ei allu i sicrhau bod eich hawliad yn cael ei drin mor gyflym a didrafferth â phosibl. Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y mae eich hawliad yn cael ei drin, dylech ofyn i'ch yswiriwr sut i wneud cwyn ffurfiol iddo. Os ydych chi'n dal yn anhapus ar ddiwedd trefn gwyno eich yswiriwr, gallwch gwyno wrth Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol annibynnol ar 0800 023 4567.

Geirfa

AILSEFYDLU

Pan fydd eiddo sydd wedi'i yswirio yn cael ei ddifrodi, mae'n arferol setlo drwy dalu swm o arian, ond gall polisi roi'r opsiwn i'r yswiriwr neu'r rhai sydd wedi'u hyswirio adfer neu ailadeiladu yn lle hynny.

ASESWR COLLEDION

Person sy'n negodi hawliadau ar ran deiliaid polisïau. Deiliad y polisi, yn hytrach na'r yswiriwr, sy'n talu'r ffi am y gwasanaeth hwn.

CWMNI ADFER AR ÔL TRYCHINEB

Cwmni sy'n cael ei gyflogi i lanhau a gwagio'ch cartref ar ôl llifogydd. Mae'n bosibl y bydd y cwmnïau hyn hefyd yn darparu offer sychu ar gyfer eich cartref.

CWMNI SYCHU

Cwmni sy'n arbenigo mewn darparu a gweithredu offer sychu ar ôl llifogydd.

GORDAL

Swm o arian y mae'n rhaid i ddeiliad y polisi ei dalu tuag at gost yr hawliad, er enghraifft, y £50 cyntaf. Gelwir hyn yn Saesneg yn 'excess'.

NEWYDD YN LLE HEN

Yswiriant ar gyfer eiddo lle ceir eitem newydd sbon os bydd eitem yn cael ei cholli neu ei dinistrio, heb dynnu unrhyw arian hyd yn oed os oedd traul ar yr eitem wreiddiol. Gelwir hyn hefyd yn Saesneg yn 'replacement as new'.

UNIONWR COLLEDION

Person sy'n annibynnol ar gwmni yswiriant ond sy'n cael ei gyflogi a'i dalu ganddo ac sy'n gwirio bod y polisi'n cwmpasu'r hawliad, ac yna'n negodi gyda deiliad y polisi ynghylch y swm sy'n daladwy ar gyfer hawliad. Eich yswiriwr sy'n talu'r ffi am y gwasanaeth hwn.

Y GWERTH SYDD WEDI'I YSWIRIO

Y swm y mae'r eiddo wedi'i yswirio ar ei gyfer, a'r uchafswm y bydd y cwmni yswiriant yn ei dalu am unrhyw hawliad.

Rhagor o wybodaeth

Yr ABI

abi.org.uk

Asiantaeth yr Amgylchedd

environment-agency.gov.uk

Y Fforwm Llifogydd Cenedlaethol

nationalfloodforum.org.uk

Fforwm Llifogydd yr Alban

scottishfloodforum.org

Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban

sepa.org.uk/environment/water/flooding/

Cyfoeth Naturiol Cymru

cyfoethnaturiolcymru/llifogydd

Northern Ireland Direct

nidirect.gov.uk/articles/homeowner-flood-protection-grant-scheme

Adran Seilwaith Gogledd Iwerddon

infrastructure-ni.gov.uk/topics/rivers-and-flooding

Sefydliad Siartredig Unionwyr Colledion

cila.co.uk/

Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig

rics.org

Flood Guidance

floodguidance.co.uk



*The***ABI**



30 Fenchurch Street | Llundain EC3M 3BD
Ft +44 207 600 3333 | **E** info@abi.org.uk

abi.org.uk

